# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd G. O. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, Jim Evans, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, R. Ll. Jones, T. H. Jones, C. McGregor, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, H. W. Thomas, E. Schofield, Ieuan Williams, J. P. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Hamdden a Chymuned)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes a Gwybodaeth)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Tai)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)<br>Cyfarwyddwr Ynys Ynni<br>Pennaeth Gweithredol (Datblygu Economaidd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Uchel Gyfreithiwr (Gwasanaethau Plant)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Alex Aldridge, Margaret Foster, Mick Giannasi a Gareth Jones (Comisiynwyr) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr K. Evans, Rhian Medi, Mr. Byron Davies - Comisiynydd |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd G. O. Jones

**1. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2011.

## 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd R. G. Parry OBE ddiddordeb yn eitem 15 o’r cofnodion hyn ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar yr eitem.

Datganodd Mr. Richard Parry Jones ddiddordeb yn eitemau 21 a 24 o’r cofnodion hyn ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar yr eitem.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL

(i) Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn dymuno nodi bod enw Arweinydd y Cyngor wedi’i adael allan o deitl yr eitem hon ar bapurau rhaglen y Cyngor a gofynnodd am i enw’r Arweinydd gael ei adfer i’r dyfodol.

Ymddiheurodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro am yr amryfusedd gan ddweud y byddai’n sicrhau bod y mater yn cael ei gywiro.

Crybwyllodd y Cynghorydd Jones bod yr eitem hefyd yn rhoi cyfle i’r Bwrdd Comisiynwyr wneud unrhyw ddatganiadau. Roedd hefyd am gwestiynu Pwynt 8 o orchymyn y Gweinidog lle'r oedd yn dweud y byddai’r Comisiynwyr yn ‘poblogi’ Pwyllgor Gwaith y Cyngor hwn. Ni chafwyd unrhyw newid enw fel y cyfryw a gofynnodd am i’r Pwyllgor Gwaith barhau i gael ei alw’n Bwyllgor Gwaith ac nid yn Fwrdd Comisiynwyr. Gofynnodd am i’r pwynt hwn gael ei nodi yn y cofnodion.

Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro y byddai’n codi’r mater gyda’r Comisiynwyr.

(ii) Rhoddwyd cyfle i Mr. Mick Giannasi, Comisiynydd, roi crynodeb byr i aelodau’r Cyngor am y cynnydd wnaed gan y Comisiynwyr ers eu penodi gan y Gweinidog ar 18 Mawrth 2011 a nododd hefyd y materion allweddol yr oedd y Comisiynwyr yn bwriadu mynd i’r afael â hwy wrth symud y Cyngor hwn yn ei flaen tros y 12 mis nesaf.

Aeth ymlaen i egluro sut yr oedd y Comisiynwyr wedi trefnu eu hunain i wneud y swyddogaethau; lle roeddynt wedi canolbwyntio eu hymdrechion yn ystod eu 6 wythnos gyntaf o weithredu; yr hyn fyddent yn mynd i’r afael ag ef yn y tymor byr i’r tymor canolog; yr hyn yr oeddent yn ei weld fel blaenoriaethau’r tymor hir yn symud ymlaen i Mai 2012 a thu hwnt a’r rhan bwysig oedd gan yr aelodau etholedig i’w chwarae yn y broses.

Tros y 6 wythnos ddiwethaf roedd y Comisiynwyr wedi:-

- Cymryd drosodd y cyfrifoldeb gweithredol;
- Sefydlu trefniadau gweithio effeithiol;
- Creu sefydlogrwydd rheolaethol gyda phenodi Prif Weithredwr Dros Dro;
- Cadw busnes fel arfer gan wneud cynnydd pwysig ar ystod o faterion;
- Cymryd stoc a dechrau paratoi cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Y gobaith oedd y byddai strategaeth tymor hirach, yn cael ei chefnogi gan gynllun gweithredu manylach, wedi ei sefydlu erbyn Medi gyda’r nod o:-

- Osod dinasyddion Ynys Môn wrth galon popeth yr oedd y Cyngor yn ei wneud;
- Adfer hyder y cyhoedd a chydranddeiliaid yn y Cyngor a’i weinyddiaeth;
- Darparu gwasanaethau cost-effeithiol oedd yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd;
- Dod a ffyniant tymor hir a lles i bobl yr Ynys;
- Sicrhau cynaliadwyaeth i’r dyfodol yn erbyn cefndir o rwystrau ariannol sylweddol.

Yn y tymor byr i'r tymor canolog fe fyddai'r Comisiynwyr yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'i dîm mewn 7 o feysydd allweddol, gyda phob un ohonynt wedi'u nodi fel rhai y byddai'n rhaid rhoddi sylw buan iddynt a gyda phob un ohonynt yn hanfodol yn y gwaith o ddarparu'r weledigaeth tymor hir. Y rhain oedd:-

- Adolygu a chryfhau'r canol corfforaethol;
- Datblygu strategaeth ar gyfer ymgysylltu gyda'r gymuned;
- Gwella'r broses gynllunio busnes a'r broses ariannol;
- Ail-ymgysylltu o fewn y rhaglen cydweithredu a rhannu gwasanaeth;
- Datblygu'r rhaglen datblygu economaidd;
- Cryfhau'r Cyfansoddiad lle mae angen hynny;
- Gweithio gyda swyddogion i hyrwyddo gwell gwasanaethau i bobl Ynys Môn.

Diolchodd Mr. Giannasi i'r Cyngor am y cyfle i gael siarad ar ran y Comisiynwyr.

(iii) Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd H. W. Thomas wneud y datganiad canlynol i'r Cyngor:-

*"Mae'n debyg bod y mwyafrif helaeth ohonoch yn gwybod fy mod wedi ymddangos gerbron Llys yn ddiweddar. Nid wyf am ymhelaethu ar fanylion yr achos yn y Siambr, ond hoffwn ddatgan fy mod yn hynod o falch bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi derbyn mai gwneud camgymeriad wnes i ac nad oedd unrhyw ymgais i fod yn anonest.*

*Er hynny, teimlaf fod dyletswydd arnaf heddiw i ymddiheuro i fy nghyd-aelodau, i'r Cyngor Sir ac i'm hetholwyr am unrhyw embaras a achoswyd. Diolch yn fawr i'r Cadeirydd am y cyfle i wneud y datganiad hwn"*

(iv) Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Comisiynwyr oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Sir.

Cyfeiriodd at y ffaith fod Mr. David Bowles, Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro wedi gadael yr Awdurdod ddiwedd mis Ebrill a diolchodd iddo am ei holl waith caled gan ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol. Yna croesawodd Mr. Richard Parry Jones fel y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro newydd, a dymunodd yn dda iddo yntau yn y swydd gan ddweud bod y Cyngor yn edrych ymlaen at weithio gydag ef.

Aeth ymlaen wedyn i ddiolch i'r staff oedd ynglŷn â'r digwyddiad 'Un Diwrnod Mawr' gynhaliwyd ym Mona i ddathlu priodas y Tywysog William a Miss Catherine Middleton. Ar ran y Cyngor roedd wedi anfon llun i'r cwpl (Ynys Lawd o Graig Pen Glas gan Steven Jones) fel anrheg priodas a llythyr o longyfarchiadau. Roedd llyfr o longyfarchiadau hefyd wedi'i adael ym mhrif dderbynfa'r Cyngor i aelodau'r cyhoedd, Cynghorwyr a staff ychwanegu eu dymuniadau gorau a byddai hwn yn cael ei anfon ymlaen i Ddug a Duges Caergrawnt yn y man.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i'r holl bobl ifanc fyddai'n cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe yn nes ymlaen y mis hwn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Aelodau a Staff y Cyngor oedd wedi ymddeol yn ddiweddar a diolchodd iddynt am eu gwaith da gan ddymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Mr. Ieuan Wyn Jones ar gael ei ailethol yn Aelod Cynulliad tros Ynys Môn yn yr etholiadau'r wythnos diwethaf. Estynnwyd dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan i Mr. Albert Owen AS, nad oedd mewn iechyd da ar hyn o bryd.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd yn dilyn llwyddiant teithiau llong Y Don Geltaidd, prosiect Interreg oedd yn cael ei arwain gan yr Uned Datblygu Economaidd ac a fu'n llwyddiannus yn sicrhau gwobr am y fenter ryngwladol orau yng Ngogledd Ewrop yn y Gwobrau Rhagoriaeth Llongau Gwyliau gynhaliwyd yn ddiweddar yn Bilbao, Sbaen. Roedd rhain yn wobrwyon y pleidleisiwyd arnynt gan y Diwydiant Llongau Gwyliau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth ddiweddar Ei Anrhydedd y Barnwr Michael Farmer QC. Ar ran y Cyngor Sir estynnodd ei gydymdeimlad â'r teulu. Roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro eisoes wedi anfon llythyr o gydymdeimlad i'r teulu.

Cyfeiriodd hefyd at Miss Gladys May Williams, Cartref Preswyl Garreglwyd, Caergybi oedd wedi marw'n ddiweddar yn 100 oed a hithau yn un o drigolion hynaf yr Ynys.

Cymerodd y cyfle hefyd i gydymdeimlo ag unrhyw Aelod neu aelod staff oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

Ar ran y Cyngor, gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r Cadeirydd ysgrifennu at y pedwar aelod rhanbarthol yn y Cynulliad i'w llongyfarch ar eu penodiad.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gwneud hynny.

## 4. CWESTIYNAU DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.2.1

Nid oedd dim.

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad, byddai deisebau'n cael eu cyflwyno i Gadeirydd y Cyngor gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, G. O. Parry MBE ac G. W. Roberts OBE a byddent yn cael sylw yn nes ymlaen ochr yn ochr ag eitem 20 y cofnodion hyn.

## 6. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

*(Noder: Swyddogaeth Gweinidogion Cymru yw cymeradwyo newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a byddir yn gofyn am eu cymeradwyaeth ond gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhellion y cyfeirir atynt yn 6.1 – 6.4 isod)*

### 6.1 RHODDION A LLETYGARWCH

Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor a Gweinidogion Cymru, y dylid cymeradwyo'r Protocol yn Atodiad 2 a'r Ffurflen Ddatganiad yn Atodiad 3 a chymeradwyo eu hychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor yn rhan 5.9 ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad.*

*Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn iddynt lunio polisi rhoddion a lletygarwch safonol ar gyfer Cymru."*

(b) Cyflwynwyd – Adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 26 Ebrill 2011.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru.**

### 6.2 ADOLYGU RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO

Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir ac i Weinidogion Cymru y dylid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor am gyfnod prawf o 12 mis ar gyfer:-

- *"Newidiadau i egluro'r rheolau ynghylch ceisiadau gan Aelodau/Swyddogion a'u perthnasau a'u ffrindiau agos y dylid eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad;*

- *Newidiadau i’r rheolau - na ddylai Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio gael gwneud nac eilio argymhelliad na phleidleisio ar gais yn eu wardiau, a*

- *Newidiadau i’r rheolau - na chaiff aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio, ac eithrio pan fônt yn siarad fel Cynghorydd Lleol, gymryd rhan mewn cais yn y Pwyllgor os nad ydynt wedi bod yn bresennol pan gafodd y cais hwnnw ei ystyried yn sylweddol gan y Pwyllgor yn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymweliad safle swyddogol sydd wedi digwydd.*

- *Nodi bod yr holl newidiadau i’r Rheolau i weithredu’r uchod wedi’u cynnwys yn yr atodlen i’r adroddiad a bod unrhyw fân newidiadau eraill i’r Rheolau wedi’u nodi yn yr atodiad i’r adroddiad.”*

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fel a gyflwynwyd i’r Bwrdd Comisiynwyr ar 26 Ebrill, 2011.

Cafwyd cais gan y Cynghorydd Aled Morris Jones bod yr adroddiad yn cael ei dynnu’n ôl gan nad oedd yn ystyried bod yna ddigon o dystiolaeth gerbron y Cyngor heddiw ynglŷn â phaham yr oedd yna angen am newid o’r fath. Roedd hefyd yn teimlo ei fod yn groes i ysbryd egwyddorion yr ymyrryd oedd yn dweud y dylai ymyrraeth fod yn gymesur â’r hyn oedd ei angen. Nid oedd y newid hwn yn gymesur. Roedd yr Awdurdod hwn eisoes wedi cymryd camau pendant i symud ceisiadau oedd yn tynnu’n groes i bolisi o’r Pwyllgor Cynllunio ac roedd hynny ynddo’i hun wedi bod yn gam cadarnhaol. Roedd yn ystyried bod yna ddigon o fesurau eisoes yn eu lle yng nghyswllt aelodau lleol.

Ategodd y Cynghorydd H. W. Thomas y pwyntiau uchod gan ychwanegu bod y Pwyllgor Cynllunio wedi cyflwyno siarad cyhoeddus i’r broses. Byddai’r argymhelliad oedd gerbron y Cyngor heddiw yn tanseilio rôl yr aelodau yn fawr o fewn y broses gynllunio. Pe bai aelod lleol yn methu mynd ar ymweliad safle yna byddai’n cael ei rwystro rhag cymryd unrhyw ran pellach gyda phenderfynu ar gais. Roedd yr aelod lleol yn gwybod llawer mwy am ei ward nag unrhyw aelod arall ar y Pwyllgor. Gofynnodd am i’r Comisiynwyr ailystyried y mater.

Siaradodd nifer o aelodau eraill yn erbyn y cynnig gan ofyn i’r Comisiynwyr ystyried y mater ymhellach gan gofio’r newidiadau oedd wedi’u gwneud yn barod yn y Pwyllgor Cynllunio a chan gofio hefyd y ffordd yr oedd awdurdodau cynllunio eraill yn delio gyda materion o’r fath.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro ei bod yn bwysig i aelodau werthfawrogi cyd-destun yr adroddiad oedd, mewn gwirionedd, wedi’i gomisiynu gan y cyn Reolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ac a oedd yn rhan o’r ymateb i ganfyddiadau negyddol yr adroddiad Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol oedd yn feirniadol iawn am nifer o faterion yn ymwneud â hyder cyhoeddus yn y broses gynllunio ac yng ngwaith y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Roedd yr adroddiad yn rhan o raglen adfer y Cyngor ac roedd y prif argymhellion yn yr adroddiad wedi’u llunio’n benodol er mwyn ceisio adfer hyder y cyhoedd yn y system gynllunio. Byddai safbwyntiau’r Cyngor, y Pwyllgor Cynllunio a’r Pwyllgor Safonau yn cael eu hanfon ymlaen fel rhan o’r ymgynghoriad i Weinidogion Cymru.

Roedd yr adroddiad wedi ymddangos gerbron y Cyngor ar 8 Mawrth 2011 ond cafodd ei ohirio fel y gallai swyddogion holi Cynghorau eraill beth oedd eu harferion gwaith yn arbennig yng nghyswllt argymhellion 2 a 3 yn yr adroddiad. Roedd paragraffau 2.7 a 2.8 yr adroddiad yn rhoi canfyddiadau’r swyddogion ynglŷn â hyn. Roedd Gwynedd, er enghraifft, yn gweithredu’r un system ac nid oedd aelodau lleol yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau’r Pwyllgor Cynllunio. Roedd sir Gaerfyrddin yn gweithredu’r ail argymhelliad sef bod angen i aelodau gymryd rhan yn y broses gyfan cyn y gallent gael caniatâd i gymryd rhan yn y penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, roedd yr hyn yr oedd Awdurdodau eraill yn ei wneud yn amherthnasol oherwydd bod yr Awdurdod hwn yn awr mewn amgylchiadau eithriadol a’i fod felly angen gwneud argymhelliad eithriadol.

**PENDERFYNWYD bod y mater yn cael ei gyfeirio’n ôl i’r Comisiynwyr gydag argymhelliad iddynt ail ystyried y mater gan gofio’r newidiadau sydd eisoes wedi’u gwneud yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn yr Awdurdod hwn.**

**6.3 Y CYHOEDD YN SIARAD YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Adroddwyd – Bod Bwrdd y Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir ac i Weinidogion Cymru eu bod yn:-

- *"Newid y protocol ar Siarad Cyhoeddus er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sy'n angenrheidiol ar ôl y cyfnod prawf 12 mis.*

- *Mabwysiadu'r protocol yn barhaol fel rhan o Reolau Gweithdrefn Materion Cynllunio fel y cânt eu nodi yn y Cyfansoddiad."*

Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Swyddog Cynllunio fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 26 Ebrill 2011.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru.**

**6.4 CYNRYCHIOLI CYNGHORAU CYMUNED / TREF AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Adroddwyd – Bod Bwrdd y Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor ac i Weinidogion Cymru eu bod yn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor trwy gynyddu'r nifer o aelodau sy'n cynrychioli Cynghorau Tref / Cymuned ar y Pwyllgor Safonau i ddau, ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad."*

Adroddwyd - Yn ychwanegol i'r argymhelliad uchod wnaed gan y Bwrdd Comisiynwyr, roedd y Swyddogion wedi canfod ymhellach ar ôl y cyfarfod bod y ddeddfwriaeth yn dweud *"bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dim llai na phump a dim mwy na naw o aelodau".* Roedd aelodaeth bresennol y Pwyllgor Safonau yn naw. Felly er mwyn cael dau Cynghorydd Tref / Cymuned byddai angen gostwng nifer naill ai'r Cynghorwyr Sir neu'r Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Er mwyn gallu gwneud hyn, cynigiodd y Swyddog Monitro bod aelodaeth y Pwyllgor Safonau'n cael ei newid fel ei fod naill ai yn:

- 2 Gynghorydd Sir, 5 aelod annibynnol a 2 Cynghorydd Cymuned / Tref; neu
- 2 Gynghorydd Sir, 4 aelod annibynnol a 2 Cynghorydd Cymuned / Tref.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru a hefyd argymell bod aelodaeth y Pwyllgor Safonau, i fod yn weithredol o 18 Rhagfyr 2011, yn 2 Gynghorydd Sir, 5 aelod annibynnol a 2 Gynghorydd Cymuned / Tref.**

**7. RECRIWTIO PWYLLGOR SAFONAU NEWYDD**

Cafwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro - y byddai'r pum aelod annibynnol cyfredol / aelodau lleyg a'r Aelod Cyngor Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau yn darfod yn eu swydd ar 17 Rhagfyr 2011 a byddai angen cael penodiadau newydd mewn grym y diwrnod canlynol. Tra y byddai'n rhaid i'r Aelod Cyngor Cymuned/Tref gael ei enwebu gan y Cynghorau Cymuned a Thref, byddai'n rhaid i'r aelodau annibynnol gael eu penodi gan y Cyngor. Roedd pob un o aelodau annibynnol cyfredol y Pwyllgor Safonau mewn swydd am 4 blynedd ac eithrio'r Cadeirydd, ac roeddent yn gymwys i wneud cais arall am un tymor pellach pebaent yn dymuno cael eu hystyried gydag unrhyw ymgeiswyr eraill.

Roedd y rheoliadau'n dweud bod rhaid i aelodau annibynnol gael eu penodi gan Banel Dewis o dri Cynghorydd Sir, un person annibynnol ac un Cynghorydd Tref/Cymuned. Byddai'r Panel Dewis wedyn yn sgorio'r ceisiadau, yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr ac yn cynnal cyfweliadau. Yn dilyn y broses hon byddai'r Panel yn gwneud argymhellion i'r Cyngor i gadarnhau'r penodiadau.

**PENDERFYNWYD**

- *"Bydd tymor Aelod(au) Annibynnol newydd y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2015.*

- *Fod Panel Dewis yn cael ei sefydlu i wneud argymhelliad i'r Cyngor ynglŷn â'r rhai ddylai gael eu hapwyntio fel Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau o 18 Rhagfyr 2011 ymlaen.*

- *Mai'r tri Chynghorydd Sir fydd yn gwasanaethu ar y Panel Dewis fydd y tri Aelod presennol, sef y Cynghorwyr W.J. Chorlton, Bryan Owen ac R.G. Parry, OBE.*

- *Bod y Cynghorydd Tref / Cymuned fydd ar y Panel Dewis yn cael ei enwebu gan 'Unllais Cymru'.*

- *Bod dewis y person annibynnol i wasanaethu ar y Panel Dewis, yn dilyn proses o hysbysebu a chyflwyno ceisiadau ysgrifenedig, yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a'r Swyddog Monitro ar y cyd, ac mewn ymgynghoriad gyda Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol.*

- *Bydd y Panel Dewis yn derbyn y pwerau dirprwyedig canlynol gan y Cyngor:-*

    - *Penderfynu ar y meini prawf ar gyfer aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau;*

    - *Hysbysebu am unigolion sy'n cyfarfod â'r meini prawf ac sydd â diddordeb mewn dod yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau;*

    - *Llunio rhestr fer, cyfweld ac enwebu ymgeiswyr priodol o blith yr ymgeiswyr hynny.*

## 8. INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro – Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn caniatáu i'r Cyngor gynnig indemniad i Aelodau a Swyddogion mewn perthynas â rhai materion penodol fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.

Nid oedd yr adroddiad ond yn delio gyda'r egwyddor a ddylai'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau i indemnio dan y Gorchymyn a phebai'n cael ei fabwysiadu byddai unrhyw gais gan Aelod neu Swyddog unigol yn y dyfodol am indemniad yn cael sylw ar wahân ac ar y pryd. Nid oedd y Gorchymyn yn rhoi pŵer i indemnio gweithredoedd y Comisiynwyr.

Byddai rhoi indemniadau o bosibl yn gwarantu talu symiau mawr mewn ffioedd cyfreithiol a chostau eraill. Fodd bynnag, efallai bod y tebygrwydd y bydd hyn yn digwydd yn isel iawn. Un ffordd briodol o reoli risg o'r fath yw trefnu yswiriant allanol y gellir galw arno yn ôl yr angen. Cyngor y Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol oedd na ddylai unrhyw indemniad a roddir gan y Cyngor fod yn fwy na'r hyn y gellid ei yswirio'n allanol am gost resymol. Un o'r materion allai fod yn sylweddol ac nad oedd eisoes yn dod o dan y polisi yswiriant cyfredol ond yn cael ei awdurdodi o dan y Gorchymyn oedd costau Aelodau yn amddiffyn camau yn eu herbyn ar gyhuddiad o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Pe bai'r Cyngor yn penderfynu mabwysiadu'r cynnig hwn o roi indemniadau a awdurdodwyd gan y Gorchymyn, y bwriad oedd cyflwyno adroddiad pellach yn nes ymlaen.

*(Roedd y Cynghorwyr B. Durkin, P. S. Rogers ac E. Schofield yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod wedi gadael y Siambr ar gyfer yr eitem arbennig hon).*

**PENDERFYNWYD cytuno mewn egwyddor ar hyn o bryd bod y Cyngor yn dymuno mabwysiadu'r pŵer i roi indemniadau fel yr oedd y Gorchymyn yn darparu ar gyfer hynny, a bod adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor rhywbryd yn y dyfodol.**

**9. CYNLLUN BUSNES CORFFORAETHOL 2011-12**

Adroddwyd – bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 3 Mai, 2011 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Busnes Corfforaethol drafft yn amodol ar yr isod:-

- *Ei fod yn nodi'r atborth a dderbyniwyd ar y drafft cychwynnol o'r Cynllun Busnes Corfforaethol, yn amodol ar ymgorffori'r isod yn y ddogfen derfynol:-*
    - *Cydnabod pwysigrwydd dinasyddion a chymunedau a phersbectif rhyngwladol i gefnogi amcanion a blaenoriaethau strategol y Cyngor;*
    - *Cydnabod pwysigrwydd adfywiad economaidd ac yn arbennig y Rhaglen Ynys Ynni ar lefel Gogledd Cymru, Cymru a'r Deyrnas Gyfunol;*
    - *Cadarnhau y dylid rhoddi blaenoriaeth yn 2011-12 i godi proffil Ynys Môn yn unol â'r uchod yn hytrach na rhoddi blaenoriaeth i reoli enw da ac y dylid canolbwyntio ar yr isod:-*
        - *Gweithredu'n fwy effeithiol;*
        - *Rhaglen blaenoriaethau fforddiadwy;*
        - *Gwireddu'r cytundeb Canlyniadau*
        - *Adnewyddiad democrataidd.*
- *Rhoi awdurdod i'r Swyddogion wneud unrhyw newidiadau pellach gan gynnwys manylion am dargedau a threfniadau monitro mewn ymgynghoriad gyda'r Comisiynwyr perthnasol;*
- *Nodi'r bwriad i symud tuag at Gynllun Busnes Corfforaethol 3 blynedd o 2012 ymlaen i sicrhau aliniad gyda Chynllun Cymunedol diwygiedig a strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol. Fel rhan o'r dasg hon, cydnabod rôl bwysig Sgriwtini yn y broses."*

Cyflwynwyd – Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 3 Mai 2011.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled Morris Jones at y dyfyniad gan Harold Wilson oedd wedi cael ei ddefnyddio yn y ddogfen. Cynigiodd welliant (gafodd ei eilio) bod y dyfyniad yn cael ei ddileu a bod dyfyniad arall gan David Lloyd George yn cael ei roi yn ei le, sef *"the greatest form of eloquence is action'.* Cafwyd pleidlais ar y mater ac fe'i cariwyd.

[*Noder: Yn dilyn safbwyntiau dderbyniwyd yn dilyn yr ymgynghori cyhoeddus, roedd swyddogion wedi penderfynu dileu'r dyfyniad gan Harold Wilson oedd wedi'i gynnwys yn wreiddiol mewn drafft cynharach. Felly, roedd y cynnig i ddiwygio'r dyfyniad yn seiliedig ar gamgymeriad ac felly roedd yr argymhelliad yn ddi-rym].*

Aeth y Cynghorydd Jones yn ei flaen i ddweud ei fod yn credu bod yna symudiad i osod y Cynghorwyr ar y ffin a bod y ddogfen yn mynd beth o'r ffordd tuag at hynny. Roedd angen i Gynghorwyr ddangos i'w cymunedau eu bod yn dal i gymryd rhan mewn mentrau strategol ar draws Gogledd Cymru, fel Ynys Ynni. Roedd y Cynghorwyr yn derbyn yn llawn bod Gorchymyn y Gweinidog yn golygu na fyddai yna unrhyw fewnbwn uniongyrchol gan Cynghorwyr. Fodd bynnag, roedd y cyfarwyddyd hefyd yn crybwyll 'agwedd' (Pwynt 17)(Egwyddorion); y dylai'r ymyrraeth fod yn gymesur ac wedi'i ffocysu a bod yn rhaid cael gwelliant parhaus (Pwynt 18). Roedd yn teimlo ei bod yn hanfodol ac yn gam cadarnhaol tuag ymlaen yn ystod yr amser hwn bod Cynghorwyr yn cael mynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion. Nid oedd hynny yn bod yn amharchus at unrhyw un oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar hyn o bryd ac ni ddylai unrhyw un yn y Siambr fod ag unrhyw gamddealltwriaeth o hynny.

Gofynnodd i'r Swyddog Monitro edrych ar Gyfarwyddyd y Gweinidog gan ei fod yn credu bod ysbryd yr ymyrraeth eisoes wedi'i dorri yn yr ystyr bod Cynghorwyr yn cael eu heithrio rhag bod yn sylwedyddion mewn cyfarfodydd strategol allweddol. Ar bwynt o gyfraith, gofynnodd i'r Swyddog Monitro ddarparu ymateb ysgrifenedig iddo yn y cyswllt hwn. Atebodd y Swyddog Monitro a dweud y byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Jones.

Aeth y Cynghorydd Jones yn ei flaen i grybwyll Ynys Ynni a'r ffaith bod cyn Arweinwyr ac Aelodau wedi gweithio'n ddiflino am nifer o flynyddoedd ar y fenter honno ac fe ddylid caniatáu iddynt barhau i wneud hynny. Roedd am gynnig gwelliant (gafodd ei eilio) bod Cynghorwyr gyda'r profiad perthnasol yn cael caniatâd i fynychu gwahanol gyfarfodydd strategol fel sylwedyddion, ond heb yr hawl i bleidleisio.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro nad oedd y gwelliant oedd yn cael ei gynnig yn berthnasol i'r prif gynigiad a'i fod felly allan o drefn. Roedd y cynigydd yn derbyn yr eglurhad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr a bod y cynllun yn dod yn weithredol o ddyddiad heddiw hyd 31 Mawrth 2012.**

**10. CCA – GWERTHUSIAD CYMERIAD ARDAL GADWRAETH LLANFECHELL**

Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn :-

*"Cymeradwyo'r Gwerthusiad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Llanfechell a chefnogi cyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor Llawn nesaf i'w mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol."*

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 26 Ebrill 2011.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr.**

**11. CYNLLUN PLANT A PHOBL IFANC 2011-2014**

Adroddwyd bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

"*PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo cynnwys y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2011-14."*

Adroddwyd - Bod y Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2011-2014 yn ddogfen statudol oedd angen cael ei sgriwtineiddio a derbyn cymeradwyaeth y Comisiynwyr cyn y gellid ei chyhoeddi fel dogfen derfynol. Roedd nifer o bolisïau a blaenoriaethau strategol cenedlaethol a lleol yn cael eu nodi ac roedd y cynllun yn darparu canlyniadau clir i'r holl wasanaethau a'r holl gydranddeliaid i'w mesur tros fywyd y cynllun.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr.**

**12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) - yn dilyn y newid diweddar yn aelodaeth y Grŵp Annibynnol a diddymu Grŵp Menai, roedd angen i'r cyngor adolygu ei drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau.

Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd tabl yn nodi'r cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau'r Cyngor yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Roedd y tabl yn dangos y pedwar grŵp gwleidyddol gydag aelodaeth o 14, 8, 5 a 5 o Aelodau ac 8 Aelod Digyswllt.

Cynigiodd y Cynghorydd G. W. Roberts OBE (a chafodd ei eilio) bod y Cyngor yn symud yn ôl i'r arfer gweithio gwreiddiol sef bod y proses o benodi aelodau digyswllt yn cael ei wneud gan Arweinydd y Cyngor yn hytrach na chan Gadeirydd y Cyngor Sir.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro y byddai'r cynnig yn newid un o'r protocolau rheoli gwleidyddol oedd wedi'u mabwysiadu yn y Cyfansoddiad. Nid oedd yn bosibl rhoi gwelliant i ddiwygio'r Cyfansoddiad o'r llawr. Byddai'n rhaid iddo fod ar y rhybudd yn unol â'r gweithdrefnau a gytunwyd. O dan Gyfarwyddyd y Gweinidog ar 16 Mawrth, nid oedd gan y Cyngor unrhyw bŵer i newid ei Gyfansoddiad ac felly roedd y cynnig allan o drefn ac ni ellid pleidleisio arno.

**PENDERFYNWYD**

- **Gofyn i'r Cyngor nodi'r trefniadau newydd priodol ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi y mae modd eu rhoi i bob Grŵp dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a'r nifer o seddi a roddir drwy ddefod ac arferiad i'r Aelodau Digyswllt;**

- **Cytuno ar y niferoedd cyflawn o seddi a ddyrennir i'r Aelodau Digyswllt a bod Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu ar ddyraniad pob un o'r seddi i aelodau unigol digyswllt (trwy gytundeb ble mae'n bosib);**

- **Gofyn i Arweinyddion y Grwpiau gyflwyno rhestr o enwau eu cynrychiolwyr ar bob Pwyllgor ac i Gadeirydd y Cyngor Sir gyflwyno enwau'r aelodau digyswllt ar bob Pwyllgor i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau fel paratoad ar gyfer y cyfarfodydd i ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion ar 20/05/2011 erbyn 4pm ar ddydd Gwener 13 Mai 2011 ar yr hwyraf.**

**13. POLISI'R AWDURDOD LLEOL MEWN PERTHYNAS Â'R SWYDDFA COFNODIADAU TROSEDDOL**

Adroddwyd - (a) Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011 wedi mabwysiadu'r Polisi yng nghyswllt staff, contractwyr annibynnol a gwirfoddolwyr ar ran y Cyngor, ac

(b) wedi argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn "*mabwysiadu'r Polisi fel yr oedd yn ymwneud ag aelodau etholedig ac aelodau a gyfetholwyd fel y manylir ar hynny yn yr adroddiad.*"

Cyflwynwyd adroddiad yr Uchel Gyfreithiwr (Gwasanaethau Plant) fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 26 Ebrill 2011.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi fel y mae'n ymwneud ag Aelodau etholedig a rhai a gyfetholwyd.**

**14. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad blynyddol gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Cymerodd y Cynghorydd Aled Morris Jones y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr a'i staff am eu gwaith yn casglu'r adroddiad at ei gilydd a diolchodd hefyd i'r Cadeiryddion blaenorol, y Cynghorwyr C. Ll. Everett ac R. Ll. Jones am eu gwaith. Aeth ymlaen i gyfeirio at y ffaith bod y gwaith o gwblhau'r

Datganiad o Gyfrifon wedi'u harchwilio am 2009-10 wedi'i oedi a bod yr Adran, Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Archwilwyr yn gwneud eu gorau i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto yn y dyfodol.

Cyfeiriodd at fater yr oedd wedi'i godi gyda'r cyn Reolwr-gyfarwyddwr Dros Dro, sef bod adroddiad drafft adolygiad cymheiriaid ar yr Adran Gyllid wedi'i baratoi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fis Tachwedd / Rhagfyr y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr adroddiad hwn eto i'w gwblhau a gofynnodd i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro oedd newydd gael ei benodi ymchwilio i'r rhesymau dros yr oedi gyda chyhoeddi'r ddogfen. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio gael gweld yr adroddiad yn ei ffurf ddrafft. Roedd yn awyddus i'r holl fater gael ei ddwyn i ben.

Wrth ateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro y byddai'n rhoi sylw brys i'r mater hwn fel y gallai'r Aelodau a'r Comisiynwyr dderbyn copi o'r adroddiad mor fuan â phosibl.

Gofynnodd y Cynghorydd G. W. Roberts OBE am gopi o'r adroddiad drafft yn ychwanegol i'r fersiwn derfynol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 15. ENWEBIADAU I GYRFF ALLANOL

Adroddwyd gan y Swyddog Monitro – bod y Comisiynwyr wedi nodi mai'r dybiaeth gyffredinol fyddai caniatáu i'r Cyngor yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol enwebu Cynghorwyr i wasanaethu ar gyrff allanol.

Mewn cyfarfod rhwng Cadeirydd y Cyngor ac Arweinwyr y Grwpiau ar 5 Mai 2011 fe awgrymwyd y dylid gofyn i'r Cyngor ddirprwyo'r penderfyniad i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad gyda'r 4 Arweinydd Grwp a Chadeirydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r penderfyniad ynglŷn â gwneud enwebiadau i gyrff allanol oedd wedi'u rhestru yn Atodiad 1 i Arweinydd y Cyngor mewn ymgynghoriad gyda'r 4 Arweinydd Grwp a Chadeirydd y Cyngor Sir.**

## 16. ADRODDIAD AR GYFLWR YR ARDAL

Cyflwynwyd – Yr adroddiad llafar a ganlyn gan Arweinydd y Cyngor:-

*"Wrth ddechrau'r anerchiad yma am y 12 mis diwethaf, rhaid cofio ei fod wedi bod yn gyfnod tyngedfennol i Gyngor Sir Ynys Môn. Ar ôl adroddiad beirniadol iawn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2009 a phenodiad Mr David Bowles fel Rheolwr Gyfarwyddwr interim, aeth y gwaith yn ei flaen i wella systemau y Cyngor gan gynnwys pwyllgorau Craffu. Er yr holl a gyflawnwyd yn y flwyddyn, roedd ymddygiad a diffyg cyd-weithio rhwng aelodau ddim wedi gwella digon i foddhau y Gweinidog dros Llywodraeth Leol a phenderfynodd ym mis Mawrth eleni i yrru comisiynwyr i fewn i redeg y Cyngor.*

*Mae pob beth arall a gymerodd le yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn gorfod cael ei ystyried yng ngwyneb y weithred honno. Wrth baratoi y gyllideb am y flwyddyn ddiwethaf buom yn ffodus i dderbyn setliad gan y Cynulliad o 1% ar yr RSG gan fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi medru trafod cytundeb "llawr" er mwyn diogelu nifer o Gynghorau a oedd yn derbyn setliad isel iawn. Daeth yn bur amlwg hefyd y byddai amser caled yn gwynebu Llywodraeth Leol yn y blynyddoedd sydd i ddŵad oherwydd pwysau andwyol i ad-dalu benthyciadau Llywodraeth ganolog. Cychwynnom ar y daith o adnabod arbedion y buasem yn medru ei wneud i gyllidebau adrannau y Cyngor tuag at y ffigwr o tua £10,000,000 a fydd rhaid i ni ei wneud dros y tair neu bedair flwyddyn nesaf.*

*Roedd y setliad a'r rhagolygon ariannol yn ergyd i economi Ynys Môn, yn enwedig ar ôl colli cynifer o swyddi yng ngwaith Alwminiwm Môn a nifer o ddiswyddiadau eraill o gwmnïau eraill ar Ynys Môn. Roedd paratoi am yr arbedion hefyd yn golygu y byddai llai o swyddi ar gael o fewn y Cyngor oherwydd mae grantiau o'r Cynulliad oedd yn eu cynnal. Crëwyd raglen Blaenoriaethau Fforddiadwy i*

*adnabod meysydd lle y byddai yn bosib i wneud arbedion ariannol sylweddol. Crëwyd tri grŵp Tasg a Gorffen i edrych am welliannau o fewn adrannau y Cyngor yn ymwneud efo Hamdden, Safleoedd Treftadaeth ac Eiddo. Adnabyddwyd arbedion o fewn y tri maes yma a rhoddodd y Pwyllgor Gwaith sêl eu bendith ar yr argymhellion a wnaethpwyd.*

*Parhaodd y cynllun Rhesymoli Ysgolion ac erbyn diwedd Gorffennaf 2011 bydd pedwar o ysgolion cynradd bychan y Sir wedi cau. Mae llawer mwy o waith i'w wneud yn y maes yma os ydynt am dderbyn y buddion ariannol mawr sydd ynghlwm efo llefydd gweigion yn ein hysgolion. Mater o dristwch i mi ydy'r ffaith y dylai hyn fod wedi cymryd lle ddegawd yn ôl pan oedd arian cyfalaf y Cynulliad ar gael i hyrwyddo adeiladau newydd. Cawsom wybod fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian yn 2012 i gychwyn adeiladu Ysgol y Bont newydd.*

*Trafodwyd nifer o opsiynau drwy gydol y flwyddyn ar sut i ail-ddylunio'r Gwasanaeth Henoed. Daeth yr adroddiad o flaen Bwrdd y Comisynwyr ar Fawrth 22 a phenderfynwyd mynd efo opsiwn 3 a oedd yn galluogi priodoldeb fforddiadwy, hyrwyddo annibyniaeth, ail alluogi a chost effeithiolrwydd. Mae'r gwaith yn parhau i gyflwyno achos buddsoddi i arbed er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer y cynhwysedd fydd angen i wireddu'r amcanion.*

*Cawsom gadarnhad tua diwedd y flwyddyn fod y Rheoleiddwyr wedi caniatáu cais gan Magnox North ar ran yr NDA i barhau i gynhyrchu Trydan yn y Wylfa bresennol am ddwy flynedd ychwanegol hyd at Ragfyr 2012. Mae hyn yn cau y bwlch cyflogaeth a fyddai yn amlwg cyn fod cynlluniau Atomfa newydd Wylfa B yn cael ei gwblhau. Cawsom newydd da ym mis Mawrth y llynedd fod Horizon Nuclear Power wedi penderfynu mae Safle Wylfa y buasent yn datblygu gyntaf yn eu cynlluniau. Wrth gael y cadarnhad yna creodd y Cyngor Sir Tîm Ynys Ynni er mwyn hyrwyddo ynni gwyrdd ac ynni cynaliadwy ym Môn ac fe lansiwyd y cynllun yn swyddogol gan Dirprwy Brif Weinidog y Cynulliad ar Fehefin 18 2010. Oherwydd y daeargryn enfawr yn Siapan rydym yn disgwyl am wybodaeth ar ba adweithydd y bydd Horizon yn eu ddefnyddio ac yn sgîl hynny y nifer o swyddi fyddwn yn medru denu i Ynys Môn. Rydym yn dal yn brysur yn y cyfnod yma yn paratoi strategaethau ar gyfer mewnlifiad o weithwyr ynghlwm efo adeiladu yr Atomfa newydd.*

*Cychwynnwyd ar y gwaith o adeiladu adeilad ar gampws Coleg Menai i hyfforddi sgiliau yn y diwydiant niwclear a chwblhawyd prosiect arall ar yr un campws i hyfforddi mewn sgiliau adeiladu. Ym mis Gorffennaf trosglwyddwyd Hyfforddiant Môn i Goleg Pencraig gan greu y campws efo cytundebau hyfforddi i bobl ifanc ac oedolion mwyaf yng Nghymru.*

*Cafwyd grantiau o gronfeydd Ewrop yn ystod y flwyddyn sydd wedi galluogi y Cyngor Sir a'i bartneriaid i gychwyn gwella tair o drefi yr Ynys, efo gwelliannau i bier Biwmares ymysg prosiectau ar arfordir Môn gwerth £3,000,000 o'r un ffynhonnell.*

*Parhawyd hefyd efo sesiynau Hawl i Holi ar draws yr Ynys. Mae rhain yn creu cyfle i'r cyhoedd i ofyn unrhyw gwestiwn i aelodau y Pwyllgor Gwaith. Er fod presenoldeb y cyhoedd yn amrywio o le i le, rydym wedi cael croeso brwd ym mhob lleoliad a gobeithiaf y bydd y sesiynau yma yn parhau yn y dyfodol. Defnyddiwyd sesiynau mis Ionawr i ymgynghori ar y gyllideb.*

*Enillodd Pabell y Cyngor Sir y wobr gyntaf yn Sioe Môn am y babell arddangosfa orau ar y maes. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yno ar draws y ddau ddiwrnod gan gynnwys gwobrwyo saith unigolyn yn seremoni Gwobrau Gofal y Cyngor Sir. Hon oedd y seremoni gyntaf i'w chynnal a mwynhawyd yr achlysur gan bob enillydd.*

*Er fydd y flwyddyn yn cael ei chofio fel amser anodd i'r Cyngor Sir, mae rhaid i ni ymfalchïo mewn nifer o ardaloedd gwaith lle rydym wedi bod yn llwyddo. Yn Cynllunio, aelodau y cyhoedd yn cael siarad am y tro cyntaf, trafodaeth cynllunio yn fyw ar y we, Parc Gwledig Caergybi yn derbyn cydnabyddiaeth ei fod gyda'r goreuon ym Mhrydain, arwyddo cytundeb i greu Adran Bolisi Cynllunio ar y cyd efo Cyngor Sir Gwynedd ac i greu Cynllun Datblygu Lleol i'r ddwy Sir.*

*Yng Ngwastraff, y Cynulliad yn cydnabod mae Pobl Ynys Môn sydd yn ailgylchu orau yng Nghymru.*

*Yn Eiddo, cynllun i gychwyn i wella cyflwr ein mân-ddaliadau.*

*Yn adran Diwylliant a Threftadaeth, gwaith yn parhau i wella safon ein llyfrgelloedd, archifdy newydd i'r Cyngor Sir yn cael sêl bendith gan osgoi colli casgliadau hynafol yr ynys.*

*Gobeithiaf fy mod wedi rhoi ychydig o flas y llwyddiant ym mherfformiad y Cyngor Sir yr ydym wedi ei gyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i bob un o staff y Cyngor am y gwaith sydd wedi ei gyflawni drwy 2010/11. Mae blynyddoedd caled o'n blaenau i adennill hygrededd trigolion Ynys Môn yn y Cyngor Sir.*

---

*Cyn gorffen fy nghyfnod fel Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn, hoffem ddiolch i fy nghyd gynghorwyr am y fraint a roddwyd i mi dwy flynedd yn ôl pan etholwyd fi yn Arweinydd. Mae hi wedi bod yn gyfnod anodd o fewn y Cyngor, yn enwedig am fod nifer ohonoch wedi mynegi anhapusrwydd am elfennau pwysig o gyd-weithio ar draws y Cyngor.*

*Yn y lle cyntaf, mae'n rhaid i mi ddiolch i'r Cynghorydd Gareth Winston Roberts a'r cyn Gynghorydd John Arthur Jones a fu mor daer yn fy argymell i sefyll fel Cynghorydd yn etholiad 2008. Rwy'n siŵr erbyn hyn bod y ddau yn dyfaru awgrymu y dylswn geisio cael fy ethol i'r Cyngor Sir. Yn ail, mae'n rhaid i mi ddiolch i'r Cynghorwyr Bryan Owen ac Elwyn Schofield. Ychydig dros ddwy flynedd yn ôl daeth y ddau i'm cartref i ofyn i mi a fyddwn yn fodlon derbyn arweinyddiaeth y grŵp Annibynnol Gwreiddiol ar ôl ymddiswyddiad Phil Fowlie. Rwy'n siŵr erbyn hyn eich bod wedi cwestiynu'r weithred honno fwy nag unwaith.*

*Yn gynharach soniais am nifer o benderfyniadau pwysig a wnaethpwyd ar ran pobl ynys Môn yn y flwyddyn ddiwethaf. Credaf fod yn bwysig i gynghorwyr ddilyn canllawiau "Nolan", dyma ydy disgwyliadau y cyhoedd ohonom. Does dim rhaid i mi ymhelaethu am hynt a hanes y Cyngor yma am dros dri degawd. Methiant i ddilyn canllawiau "Nolan" ydy'r rheswm mae'r Comisynwyr yma yn rheoli'r Cyngor ar ein rhan a dyna pam mae y Gweinidog dros Llywodraeth Leol wedi cymryd y pwerau gweinyddu oddi arnom.*

*Mis Mehefin y flwyddyn ddiwethaf mewn cyfarfod o'r Grŵp Annibynnol Gwreiddiol soniais am dranc y Cyngor pe bai cyfarwyddyd a chyngor y Gweinidog yn cael eu hanwybyddu. "Bring it on" oedd ymateb rhai ohonoch, ac ers hynny mae rhai ohonoch wedi methu'r arwyddion clir a ddaeth o Gaerdydd ar lawer achlysur. Gobeithiaf eich bod yn sylweddoli erbyn hyn nad ydych bellach yn medru dylanwadu ar gyfeiriad Cyngor Ynys Môn.*

*Hoffem ddiolch i fy nghyd gynghorwyr yng ngrŵp Llais i Fôn am eu hymdrechion i wella pethau ar ran pobl Ynys Môn. Hoffem hefyd ddiolch i fwyafrif o gynghorwyr Plaid Cymru ac eraill a gefnogodd y Gynghrair a grëwyd fis Mehefin diwethaf. Yn anffodus torrwyd addewidion gan unigolion, a chrëwyd hyn sefyllfa lle'r oedd gan y gweinidog ddim opsiwn ond rhoi rheolaeth y Cyngor yn nwylo y Comisynwyr. Mae gan bob un ohonom amser bellach i ail edrych ar y rhan rydym ni wedi cymryd yn y ddrama "tragic" yma. Bydd llawer ohonom yn gwynebu etholiad y flwyddyn nesaf a fydd rhaid i ni wynebu pobl Ynys Môn gan wybod fod ein hunan-barch wedi eu bardduo gan lleiafrif bychan o gynghorwyr yr ynys. Rwy'n sicr y byddant yn ddi-flewin ar dafod yn mynegi eu siom a'i pryder am ein perfformiad. Gobeithiaf y medrwch fod yn onest efo nhw am eich perfformiad dros y blynyddoedd a fu.*

*Mae hygrededd rhywun yn cael ei adeiladu ar beth mae pobl yn ei ddweud amdanoch, beth ydach chi yn ei ddweud am eich hunain, eich hymddygiad ac eich gweithgareddau. Yr holl bethau yma sydd yn adlewyrchu a modelu chi fel person. Mae yn hynod bwysig fod y sefydliad yr ydym yn cynrychioli yn glir beth yw ein hegwyddorion. Mae ein harweinyddiaeth yn gosod sylfeini ein enw da. Tydi bod yn glir yn ein hygrededd ddim yn ddigon, mae'n rhaid i ni hefyd ddangos ein bod yn gweithredu ac yn arwain ein Cyngor i gefnogi beth rydym yn cynrychioli. Y mudiadau sydd yn gwneud yn dda mewn amseroedd caled yw y rhai sydd yn cael eu harwain efo gwerthoedd da ac yn eu gyrru gan berfformiadau o safon uchel.*

*Gobeithiaf fod pobl Ynys Môn yn glir am y rhesymau y gyrrwyd Comisynwyr yma. Mae'n rhaid i ni hefyd gofio os na fyddwn yn rhoi terfyn ar "bolitics buarth yr ysgol" fod gan y gweinidog mwy o bwerau y gall ddefnyddio i wella perfformiad Cynghorwyr Ynys Môn gan gynnwys ein gorfodi i uno efo Cyngor Sir Gwynedd. Rwy'n sicr nad oes yr un ohonom eisiau gweld hynny yn digwydd.*

*Mae dyfodol y Cyngor yma yn ein dwylo ni er gwaetha ymdrechion nifer fechan ohonoch i greu anrhefn. Does gan yr un ohonom hawl i fod yn Arweinydd y Cyngor Sir er bod rhai ohonoch yn meddwl i'r gwrthwyneb. Fel rwyf wedi crybwyll yn gynharach, mae hygrededd person yn holl bwysig yn y swydd. Does na ddim lle i gymeriadau efo hanes tu cefn iddynt.*

*Cewch gyfle yn hwyrach y prynhawn yma i ethol Arweinydd newydd i Gyngor Sir Ynys Môn, meddyliwch yn ofalus dros ben cyn gweud penderfyniad, a ydy'r person hwnnw yn medru rhoi llaw ar ei galon a dweud, 'does gen i ddim sgerbwd yn y cwpwrdd, rwyf yn medru cydymffurfio efo canllawiau Nolan, tydi'r enwebiad ddim yn mynd i greu embaras i'r Cyngor ac nid pyped ydw i'.*

*Hoffem hefyd ddiolch i arweinyddion Cynghorau Dinesig a Sirol Cymru am eu cefnogaeth i mi dros y ddwy flynedd diwethaf ac yn enwedig i Arweinyddion y Gogledd, drwy gytuno i gydweithio rydym ar fin cyflawni nifer o brosiectau arloesol er mwyn gwella gwasanaeth i'r cyhoedd ac arbed arian yr un pryd.*

*Dwi hefyd isio diolch i swyddogion a staff y Cyngor am y gefnogaeth rwyf wedi ei dderbyn yn fy nghyfnod fel Arweinydd. Maent wedi ysgafnhau y faich yn aruthrol i mi. Rwy'n siŵr y gwneith y gweddill ohonoch faddau i mi os wna i enwi Mrs Mary Wyn Jones a Mrs Carys Bullock yn benodol am y gefnogaeth wrth ateb y ffôn, cadw'r dyddiadur, eu cymorth efo'r cyfrifiadur a chroesawu ymwelwyr i'r swyddfa. Hoffwn hefyd ddiolch i Mrs June Williams sydd wedi bod o gymorth i mi.*

*Dymunaf bob llwyddiant i'r enillydd ar ôl y bleidlais y prynhawn yma.*

Cyfeiriodd y Cynghorydd D. R. Hughes at y Grŵp Tasg Treftadaeth a Hamdden a'i benderfyniad i drosglwyddo Gwylfan Moelfre i'r RNLI. Gofynnodd faint o arian fyddai'r Cyngor yn ei arbed a beth oedd y sefyllfa gyda'r chwe safle arall a nodwyd gan y Grŵp Tasg?

Mewn ymateb dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd y ffigyrau ganddo wrth law ond y gallai ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Hughes.

Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones, mewn ymateb i ail-ran o araith yr Arweinydd yn dymuno iddo gael ei gofnodi yn y cofnodion nad oedd erioed yn ei fywyd wedi gwrando ar araith mor ffiaidd a dan din yn y Cyngor heb unrhyw angen i fod felly.

Cafwyd pleidlais a ddylid derbyn yr adroddiad ai peidio.

Roedd y pleidleisio fel a ganlyn: 18 o blaid, 11 yn erbyn a 5 yn atal eu pleidlais.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad.**

## 17. DIRPRWYO

Cyflwynwyd er gwybodaeth – manylion yn nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo yng nghyswllt swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan yr Arweinydd ers y cyfarfod cyffredin diwethaf (Rheol 4.4.1.4 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith yn y Cyfansoddiad) a hyd at 16 Mawrth 2011.

Adroddwyd – Na wnaed unrhyw dirprwyo gan y Bwrdd Comisiynwyr rhwng 16 Mawrth 2011 a dyddiad y cyfarfod hwn o'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 18. AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, un o gynrychiolwyr y Cyngor hwn ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Mawrth, 2011 a 31 Ebrill 2011.

Adroddwyd - Bod 36,522 o wiriadau diogelwch tân wedi'u cynnal ar yr Ynys dros y flwyddyn ddiwethaf a'u pwrpas yw diogelu pobl fregus. Diolchodd i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol oedd wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Awdurdod Tân gyda'r gwaith hwn. Roedd yr Awdurdod Tân wedi cydnabod y gwaith da a'r cydweithredu agos oedd yn bodoli. Roedd yr Awdurdod yn wynebu amser anodd gyda'r gyllideb ac roedd wedi cytuno i osod gostyngiad 2.5% yn y gyllideb mewn termau ariannol dros y tair blynedd nesaf a byddai'n edrych i reoli hwnnw er mwyn sicrhau bod Gogledd Cymru'n parhau yn lle diogel i'w drigolion.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 19. AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Mawrth a 31 Ebrill, 2011.

Adroddwyd - Bod y strwythur plismona newydd bellach wedi dod i rym ar draws Gogledd Cymru yn dilyn gostyngiad o bron i £15m yn y gyllideb dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Roedd hyn yn dilyn gwaith ymgynghori eang ac wedi golygu bod y 3 hen Unedau Rheoli Sylfaenol oedd yn gweithio dros y Gogledd Orllewin, Gogledd a Gogledd Ddwyrain Cymru wedi'u disodli gan un uned o dan ofal y Prif Uwch Arolygydd Simon Humphreys.

Roedd Prif Arolygydd hefyd wedi'i benodi ar bob ardal i barhau'r gwaith partneriaeth lleol gydag asiantaethau ag awdurdodau eraill i leihau troseddu'n lleol,a'r Arolygydd Nigel Harrison fyddai'n gyfrifol am Ynys Môn.

Byddai ailstrwythuro'r Heddlu yn lleihau'r costau yn fawr ac yn lleihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen. At hyn roedd yr Heddlu am greu 9 o hybiau wedi'u lleoli'n strategol ar draws y rhanbarth i ddarparu ymatebion i alwadau argyfwng. Ni fyddai swyddogion ymateb yn aros yn yr hybiau hyn ond yn hytrach fe fyddent allan ar stryd yn plismona, yn barod i ymateb a hefyd yn darparu presenoldeb fyddai'n rhoi hyder i'r gymuned leol.

Byddai'r ardal blismona leol newydd yn cael ei harwain gan Arolygydd lleol ac ym Môn yr Arolygydd Michael Isaacs fyddai hwnnw a'i ganolfan yn Llangefni. Byddai'r Heddlu yn parhau i ddarparu C.I.D., plismona ffyrdd, ymateb arfog, cŵn, tîm digwyddiadau mawr a'r gefnogaeth awyr. Byddai cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth hefyd yn chwarae rôl bwysig iawn.

Crybwyllodd y Cynghorydd Rogers ei fod yn eistedd ar y Panel Stadau a bod yr Heddlu yn y broses o adolygu ei stad ac fe ddylai hyn fod wedi'i gwblhau erbyn mis Hydref. Oherwydd ailstrwythuro'r Heddlu, roedd yna dipyn o frys i ddatrys rhai materion llety ym Mae Colwyn fyddai'n dod ag arbedion ariannol enfawr.

Roedd y Prif Cwnstabl yn haeddu llawer o ganmoliaeth oherwydd y cyflymder a fu gyda gweithredu'r sawl newid oedd wedi'u gorfodi ar yr heddlu oherwydd y toriad mawr yn eu cyllideb. Talodd y Cynghorydd Rogers deyrnged hefyd i'r ffordd y bu'r Heddlu'n llwyddiannus yn dal ac yn carcharu rhai troseddwyr lleol oedd wedi bod yn camweithredu'n aml.

Roedd y Cynghorydd E. Schofield yn dymuno amddiffyn yr Awdurdod Cynllunio yn y cyhoeddusrwydd gwael yr oedd wedi'i dderbyn yn rhai o'r papurau newydd cenedlaethol oherwydd rhyddhau gwybodaeth am y lle yr oedd y cwpl brenhinol yn byw ar yr Ynys. Roedd am ei gwneud yn glir nad oedd yna unrhyw fai ar yr Awdurdod Cynllunio a'u bod wedi cydymffurfio'n llawn gyda'r gweithdrefnau sydd yn ei lle ynglŷn â rhyddhau gwybodaeth o'r fath. Roedd yn credu bod rhyw amryfusedd wedi digwydd o fewn y Gwasanaethau Amddiffyn a gofynnodd i'r Cynghorydd Rogers sicrhau bod y neges yn cael ei dwyn i'w sylw os yn bosibl trwy Heddlu Gogledd Cymru.

Addawodd y Cynghorydd Rogers y byddai'n pasio'r neges honno ymlaen.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 20. CYNIGION A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd deisebau gan y Cynghorwyr Aled Morris Jones, G. O. Parry MBE a G. W. Roberts OBE yn ymwneud â'r adolygiad arfaethedig o'r trefniadau etholaethol.

Cyflwynwyd – Y Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorwyr K. P. Hughes, Aled Morris Jones, Bryan Owen, G. O. Parry MBE ac Eric Roberts:-

"*Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro alw cyfarfod arbennig o Gyngor Sir Ynys Môn i drafod cyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ddyddiedig 28 Mawrth, 2011 i adolygu ymhellach drefniadau etholiadol Ynys Môn.*

*Bwriedir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn 30 Medi, 2011.*

*Ni fydd yr amserlen hon yn caniatáu cyfnod cychwynnol o ymgynghori gyda chymunedau Ynys Môn ar ddechrau'r adolygiad."*

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen nad oedd ganddo broblem gyda'r Adolygiad Ffiniau ym Môn ond ei fod ef a'i gyd aelodau yn gofyn i'r Gweinidog fod yn deg gydag Ynys Môn a'i thrin yn yr un ffordd a gweddill Cymru. Roedd yn gobeithio y gallai'r Cyngor weithio gyda'r Comisiynwyr ynglŷn â hyn gan yrru neges ddiamwys yn ôl i Gaerdydd nad oedd Ynys Môn yn hapus gyda'r ffordd y deliwyd gyda'r mater hwn. Cynigiodd (ac fe'i heiliwyd) bod y mater yn cael ei ohirio heddiw a bod Ynys Môn yn derbyn yr un driniaeth â gweddill Cymru.

Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro bod hwn yn fater o arwyddocâd mawr i'r Cyngor hwn ac i bobl Môn. Gan bod hwn yn fater fyddai'n cael canlyniadau pellgyrhaeddol ar fframwaith democrataidd yr Ynys, argymhellodd y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir mor fuan ac oedd yn ymarferol bosibl i drafod y mater. Fe allai swyddogion wedyn baratoi papurau cefndirol manwl fel y gellid cael trafodaeth yn seiliedig ar yr holl wybodaeth oedd ar gael. Byddai'r adroddiad hefyd yn darparu cyfarwyddyd cyfreithiol ynglŷn â chyfarwyddiadau'r Gweinidog a'r opsiynau a oedd ar gael i'r Cyngor hwn fel corff democrataidd yn manteisio ar y cyfle i fynegi ei safbwyntiau ei hun fel cynrychiolwyr trethdalwyr Môn, i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac i'r Comisiwn Ffiniau.

Mynegodd nifer o'r Aelodau bryder nad oedd y Gweinidog yn dilyn y prosesau cywir yn caniatáu i drigolion Môn gael cyfle i roi eu barn ar yr adolygiad hwn o'r trefniadau etholaethol. Roedd angen ceisio darbwyllo'r gweinidog bod trin Ynys Môn yn wahanol i weddill Cymru gydag amserlen amhriodol, yn annheg, yn annemocrataidd ac yn annerbyniol. Roedd y cynnig yn un eithafol gan ei fod yn golygu symud oddi wrth wardiau un aelod i wardiau aml-aelod ac fe fyddai'r Comisiwn Ffiniau yn gweithredu heb gadw hunaniaeth y cymunedau ym Môn.

Crybwyllwyd hefyd y dylai'r Cyngor ystyried ceisio cael gwaharddeb.

Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro – petai'r Cyngor yn dilyn y llwybr hwn, yna fe fyddai angen i'r Cyngor heddiw gau allan y wasg a'r cyhoedd am ran o'r cyfarfod fel y gallai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro ddarparu barn gyfreithiol gyfrinachol cyn unrhyw bleidlais. Er i gyngor cyfreithiol gael ei gynnig gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD gohirio unrhyw ystyriaeth a bod trefniadau'n cael eu gwneud i alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir i drafod y mater mewn manylder o fewn y bythefnos / tair wythnos nesaf.**

## 21. TELERAU AC AMODAU CYFLOGAETH Y PENNAETH GWASANAETHAU TÂL A'R PRIF WEITHREDWR PRESENNOL A DEILYDD Y SWYDD YN Y DYFODOL

*(Datganodd Mr. Richard Parry Jones ddiddordeb yn yr eitem hon ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar y mater).*

Adroddwyd – Yn dilyn cefnogi yn gynnes ac yn unfrydol benodiad Mr. Richard Parry Jones i swydd y Rheolwr-gyfarwyddwr, fe benderfynodd y Pwyllgor Penodi ar 3 Mai 2011 argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

- *"Bod y Cyngor yn ail-ddynodi teitl swydd y Rheolwr-gyfarwyddwr yn un Prif Weithredwr;*
- *Bod y Cyngor yn cymeradwyo Disgrifiad Swydd a Manyleb Bersonol swydd y Prif Weithredwr yn unol â'r dogfennau sydd ynghlwm wrth yr Adroddiad hwn;*

- *Y bydd cyflog y Rheolwr-gyfarwyddwr / Prif Weithredwr sydd wedi'i apwyntio ar hyn o bryd ar bwynt sefydlog o £110k y flwyddyn;*

- *Gofyn am Adroddiad ynglŷn â goblygiadau'r apwyntiad hwn i'r Gwasanaethau Addysg a Hamdden a bod trefniadau llanw addas yn cael eu gwneud ar frys yn achos swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) sydd yn wag;*

- *Bod Adroddiad yn cael ei gyflwyno cyn diwedd 2011 i'r Pwyllgor Penodi i benderfynu ar drefniadau yn ymwneud â chyflog, telerau ac amodau, hysbysebu ac ati ar gyfer swydd y Prif Weithredwr nesaf sydd i'w benodi ar ôl Mai 2012."*

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid), y Swyddog Monitro a'r Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Penodi ar 3 Mai 2011.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Penodi gynhaliwyd ar 3 Mai 2011 fel uchod.**

*(Roedd y Cynghorydd P. S. Rogers yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn yr argymhelliad yng ngolwg y ffaith ei fod yn ystyried y dylai swydd y Prif Weithredwr ar ôl Mai 2012 fod yn swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol yn hytrach na Cymraeg yn hanfodol).*

**22. GOSOD CONTRACTAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ar y prosesau fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer gosod contractau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**23. CYNLLUN LWFANSAU'R AELODAU**

Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) – Bod y Gweinidog dros Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu i Banel Tâl Annibynnol Cymru yn gofyn iddynt gynnal adolygiad o lwfansau ym Môn. Adroddodd y Panel yn ôl ar 13 Ebrill, a'i rôl oedd penderfynu ar uchafswm y lwfans, ac ni châi'r Awdurdod hwn fynd yn uwch na'r uchafswm hwnnw.

Roedd yr adroddiad yn gostwng y lwfans sylfaenol uchaf ar gyfer y Cyngor i £11,664 sef yr union swm a benderfynwyd gan y Cyngor hwn ar gyfer 2011-12 yn dilyn y toriad o 10%. Nid oedd angen gwneud unrhyw newid. Roedd hefyd yn gostwng uchafswm lwfans 'Band 3' i £7474 oedd yn berthnasol i Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgorau Cynllunio ac Archwilio lle y penderfynodd y Cyngor ar £7,473 ar gyfer 2011-12. Nid oedd angen unrhyw newid.

Roedd Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig i'r Arweinydd, yr Is-Arweinydd, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Arweinydd yr Wrthblaid wedi'u cwtogi i sero. Roedd hyn yn gofyn am newid y cynllun.

**PENDERFYNWYD diwygio Cynllun Lwfansau'r Aelodau trwy ostwng y Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig i'r Arweinydd, Dirprwy Arweinydd, Pwyllgor Gwaith ac Arweinydd yr Wrthblaid i sero i ddod i rym o 1 Ebrill 2011.**

**24. NEWIDIADAU I GYLLIDEB Y CYNGOR**

*(Datganodd Mr. Richard Parry Jones ddiddordeb ac nid oedd yn bresennol yn y Siambr yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar y mater).*

Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) – O ganlyniad i ddatblygiadau diweddar, roedd angen gwneud rhai newidiadau i gyllideb 2011/12 oedd yn mynd y tu draw i bwerau trosglwyddo arian y Pwyllgor Gwaith (gyda manylion am hynny yn yr adroddiad).

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trosglwyddiadau canlynol i benawdau cyllideb 2011-12, o ystyried datganiadau diweddar a phenderfyniadau yng nghyswllt Lwfansau Aelodau, Rheolwr-gyfarwyddwr/Prif Weithredwr, Bwrdd Adfer a'r Bwrdd Comisiynwyr:-**

| | | **Cynnydd / Lleihad Cyllideb £000** |
|---|---|---|
| Grant Cytundeb Canlyniadau | [270 – 65] | 205 |
| Lwfansau Aelodau | | (170) |
| Rheolwr-gyfarwyddwr / Prif Weithredwr | [35 – 130] | (95) |
| Cynllun Adfer | | 60 |

**Daeth y cyfarfod i ben am 2:20pm**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**